# ECAD6051 – Sesiwn 3

## Mathemateg a Rhifedd

## TAR

Bethan Sturrock

b.sturrock@uwtsd.ac.uk



# Amcanion




- Ail-edrych ar a deall Y Fframwaith Rhifedd
- Adolygu'r 5 Hyfedredd
- Cynllunio gwersi neu weithgareddau trawsgwricwlaidd (Rhifedd)
- Treialu gweithgareddau Mathemateg a Rhifedd

# Y Fframwaith Rhifedd

Literacy Framework

**Fframwaith Rhifedd**

| Llinyn | Elfen | Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| redd mathemategol | **Dealltwriaeth gysyniadol** | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir trosglwyddo cysyniadau mathemategol sylfaenol yn ystod gweithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth. | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir trosglwyddo cysyniadau mathemategol yn ystod gweithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth. | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau. | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau. | Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau. |
| | | | | Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol. | Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol. | Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol. |
| | | | | Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau). | Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau). | Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau). |
| | | Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau mathemategol sylfaenol mewn ffyrdd gwahanol. | Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol. | Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol. | Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol. | Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol. |
| | | Rwy'n gallu archwilio atebion o fewn cyd-destun y broblem ac rwy'n dechrau ystyried a yw atebion yn synhwyrol. | Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol. | Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol. | Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol. | Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol. |
| | **Rhesymu rhesymegol** | Rwy'n gallu defnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am fy | Rwy'n gallu ddefnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am ac | Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol. | Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol. | Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol. |

# Hyfedreddau mathemategol




# Mathematical proficiencies



Dylid myfyrio ar syniadau a chysyniadau mathemategol, ynghyd â'u datblygu a'u cysylltu â'i gilydd, wrth i ddysgwyr gael profiad o syniadau mathemategol cynyddol gymhleth. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth gysyniadol drwy egluro a mynegi cysyniadau, dod o hyd i enghreifftiau (neu anenghreifftiau) a thrwy gynrychioli cysyniad mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys cynrychioliadau llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.

Wrth i ddysgwyr brofi cysyniadau cynyddol gymhleth, dylent hefyd feithrin dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y cysyniadau hyn ac o fewn y cysyniadau hyn. Dylent gymhwyso dulliau rhesymu rhesymegol wrth ymdrin â'r perthnasau hyn a gallu eu cyfiawnhau a'u profi. Dylai'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth ddod yn gynyddol haniaethol, gan symud o esboniadau llafar, gweledol neu ddiriaethol i gynrychioliadau haniaethol sy'n cynnwys symbolau a chonfensiynau.

# A allwch chi gydweddu pob hyfedredd â'i ddiffiniad?

Dylai dysgwyr ddeall bod y symbolau y maent yn eu defnyddio yn gynrychioliadau haniaethol a dylent ddatblygu mwy o hyblygrwydd wrth iddynt gymhwyso a defnyddio amrywiaeth gynyddol o symbolau, gan ddeall confensiynau'r symbolau y maent yn eu defnyddio.

Wrth i ddysgwyr brofi, deall a chymhwyso cysyniadau a pherthnasau sy'n gynyddol fwy cymhleth, dylai eu rhuglder wrth gofio ffeithiau, perthnasau a thechnegau wella. O ganlyniad, dylai ffeithiau, perthnasau a thechnegau a ddysgwyd ynghynt fod wedi'u hymsefydlu'n gadarn, yn gofiadwy ac yn ddefnyddiadwy.

Dylai dysgwyr ddod yn gynyddol annibynnol wrth adnabod a chymhwyso'r strwythurau a'r syniadau mathemategol sydd wrth wraidd problem, er mwyn gallu ei datrys.

**Cwestiwn:** - Pa sgiliau sydd eu hangen er mwyn ateb y broblem eiriol hon?

Mae llyfrgell ysgol yn trefnu llyfrau mathemateg newydd.
Mae **3 silff**, ac mae pob silff yn dal **24 llyfr.**
Yna, mae'r llyfrgellydd yn rhoi **18 llyfr** i ysgol arall.

**Cwestiwn:**
Faint o lyfrau mathemateg sydd ar ôl yn y llyfrgell?

**Question -** What skills are needed in order to answer this word problem?

A school library is organizing new mathematics books.
There are **3 shelves**, and each shelf holds **24 books**.
Later, the librarian donates **18 books** to another school.

**Question:**
How many mathematics books are left in the library?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Dealltwriaeth o ddarllen

Geirfa mathemategol

Mae llyfrgell ysgol yn trefnu llyfrau mathemateg newydd.
Mae **silff**, ac mae **pob silff** yn dal **24 llyfr.**
Yna, mae'r llyfrgellydd yn **rhoi 18 llyfr** i ysgol arall.

Rhesymu

Rhugldder mewn Gweithrediadau Mathemategol

**Cwestiwn:**

Faint o lyfrau mathemateg sydd **ar ôl** yn y llyfrgell?

Strategaethau Datrys Problemau

# Cynllunio Rhifedd ar draws y Cwricwlwm

Literacy Framework

## Tasg

Cynllunio a chyflwyno

- Dewiswch grŵp blwyddyn (Blwyddyn 4 neu Flwyddyn 6).
- Dewiswch un llinyn o'r Fframwaith Rhifedd
- Nodi un disgwyliad rhifedd sy'n briodol i'ch grŵp blwyddyn dewisol.
- Dyluniwch weithgaredd 20–30 munud sy'n addysgu'r sgil hon trwy faes cwricwlwm arall (e.e. gwyddoniaeth, dyniaethau, celfyddydau mynegiannol).

Pa sgil Fframwaith Rhifedd rydych chi'n ei ddatblygu.
Amcan dysgu a meini prawf llwyddiant.
Sut mae'r gweithgaredd yn ddiddorol ac ystyrlon.
Sut y byddech chi'n gwahaniaethu ar gyfer dysgwyr ag anghenion gwahanol.
Sut y byddech chi'n asesu a yw dysgwyr wedi cyflawni'r amcan.


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpar athro:** | | **Dosbarth / Grŵp** | |
| **MDPh neu Bwnc:** | | **Dyddiad** *(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)*: | |
| **Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm** (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...) | | | |
| **Cysylltiadau ystyrlon ar draws y Cwricwlwm** (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd) | | | |
| **Targedau Personol** (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu) | | | |
| **Bwriad Dysgu** *'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yr* H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)* | | | |
| | | | |
| **Meini prawf llwyddiant** *Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.* | | | |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP PDPA Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa / Yr Athrofa Professional Learning Partnership

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpar athro:** | Bethan Sturrock | **Dosbarth / Grŵp** | Blwyddyn 1 |
| **MDPh neu Bwnc:** | Mathemateg | **Dyddiad** *(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)*: | 6.2.25 / 10.2.25 |
| **Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm** (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...) | • Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.<br>• Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus. | | |
| **Cysylltiadau ystyrlon ar draws y Cwricwlwm** (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd) | • Rwy'n gallu segmentu cyfuniadau o lythrennau cyfarwydd ar lafar.<br>• Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei weld a'i ddarllen.<br>• Rwy'n gallu cyfrif yn ddibynadwy, ymlaen ac yn ôl, y tu hwnt i 10.<br>• Rwy'n gallu cyfuno dau grŵp o wrthrychau i ddod o hyd i 'faint i gyd?'.<br>• Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o ddiben arian drwy chwarae rôl ac mew<br>• Rwy'n gallu cyfnewid arian am eitemau a defnyddio iaith arian.<br>• Rwy'n gallu creu gwaith digidol syml.<br>• Rwy'n gallu cyflwyno a gwerthuso fy nata drwy greu siartiau syml, e.e. pictog | | |

**Targedau Personol** (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu r disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu)

**Bwriad Dysgu**
*'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyrae* H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)*

BYDSI – ddefnyddio darnau arian i brynu ffrwythau o'r siop gan wneud cyfansymiau o hyd at 20c, a dechrau a radio

**DILYNIANT ADDYSGU A DYSGU**
*(Ychwanegwch neu dynnwch rhesi isod fel y bo'n briodol)*

| **Amseru:** *Rhannwch yr amseru yn grwpiau os yw'n briodol. Gwnewch yn siŵr fod disgyblion yn mynd ati i 'wneud' yn gyflym a bod y cyfnodau pontio'n cael eu hystyried* | **Rôl yr athro a'r staff cymorth:** *e.e. cwestiynau allweddol, adalw dysgu blaenorol, modelu ac esboniadau, gwirio dealltwriaeth, defnydd a fwriedir o oedolion ychwanegol*<br><br>*Dewis o fodel addysgegol neu o'r 12 egwyddor addysgegol* | **Y dysgu gan y disgyblion a'r gweithgareddau:** *Beth fydd y disgyblion yn dysgu ei wneud a pha weithgareddau / adnoddau fydd yn hwyluso hyn?*<br><br>*Cyfeiriwch at y ddogfen Dysgu Sylfaen i gael manylion y ddarpariaeth.* | **Strategaethau Cynhwysol (yn cynnwys gwahaniaethu):** *Y rhesymau dros sgaffaldio a manylion hynny.*<br><br>*Mathau o gynrychiolaeth mewn tasgau.* | **Gwiriwch beth mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall, ac yn gallu ei wneud:** *Cwestiynau allweddol, mathau o ymarferion adalw, cyfleoedd i hunanasesu ac asesu cymheiriaid, cyfleoedd marcio byw, adborth a fwriedir.* |
|---|---|---|---|---|
| 10 munud | Beth yw eu dealltwriaeth presennol o lindys a pili palod?<br><br>Darllen stori 'Lindysyn Llwglyd lawn'<br>Dangos y stori ar fwrdd gwyn rhyngweithiol os yn bosib. | Rhannu eu dealltwriaeth am bili palod a lindys (Meddwl Paru Rhannu)<br><br>Gwrando'n astud ar stori 'Y Lindysyn Llwglyd lawn'. Annog y disgyblion i gymryd rhan i gofio drefn y stori ar lafar. | Llyfr 'Y Lindysyn Llwglyd lawn', a'i roi ar y sgrîn hefyd (I ddisgyblion sydd angen yr elfen rhyngweithiol yn fwy)<br>Lluniau ar gardiau (rhifau a geiriau hefyd) | Partneriaid siarad (Meddwl Paru, Rhannu)<br><br>Pwy sy'n cofio…<br>'Beth fwytaodd y lindysyn gyntaf? Beth fwytaodd y lindysyn nesaf?...<br><br>Canu cán dyddiau'r wythnos |
| 5 munud | Adolygu dyddiau'r wythnos trwy ganu gyda'r disgyblion. Modelu cán newydd gyda ffocws ar drefn dyddiau'r wythnos. Adolygu trefn y | Disgyblion yn canu dyddiau'r wythnos gan gofio'r drefn.<br><br>Gofyn cwestiynau am drefn y stori. Beth bwyatodd y lindysyn gyntaf? | Sicrhau adnoddau gweledol er mwyn sbarduno cof (ffrwythau a bwydydd go iawn) | Pwy sy'n cofio….?<br>Pa ddiwrnod sy'n dod **ar ól** dydd Iau? |

Mesur (Hyd/Capasiti)

**Problem 4:**

***Pa gynhwysydd sy'n dal y mwyaf o ddŵr?***

- Sut allwch chi ddarganfod?
- Sut allwch chi ei wneud yn deg?
- Beth allech chi ei ddefnyddio i fesur?

Adio a Thynnu

**Problem 2:**

***Mae 18 o blant yn y dosbarth. Mae rhai yn gwisgo siwmperi a rhai ddim.***

- Faint allai fod yn gwisgo siwmperi?
- Allwch chi ddangos eich meddwl mewn mwy nag un ffordd?

Rhif a Gwerth Lle

**Problem 1:**

***Mae gan Sam 14 ciwb. Mae eisiau eu rhannu rhwng dau hambwrdd.***

- Sawl ffordd wahanol y gall wneud hyn?
- Sut ydych chi'n gwybod eich bod wedi dod o hyd iddyn nhw i gyd?
- Beth ydych chi'n sylwi am y rhifau?

Siâp a Gofod

**Problem 3:**

***Mae gennych chi 6 sgwâr a 4 triongl.***

- Allwch chi wneud llun gan ddefnyddio'r holl siapiau?
- Pa siapiau allwch chi eu gweld y tu mewn i'ch llun?
- Sut mae eich llun yr un fath neu'n wahanol i lun rhywun arall?

Bethan Sturrock

b.sturrock@uwtsd.ac.uk

